

Arolygiad Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu

(dirybudd)

Ysbyty Llys Llanarth:

Wardiau: Awen, Howell,

Iddon, Osbern, Teilo,

Treowen, Deri a

Woodlands

11–15 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Methodoleg.....	3
3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth.....	5
4. Crynodeb.....	7
5. Canfyddiadau	9
Safonau Craidd	9
Defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl	22
Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl.....	23
6. Y Camau Nesaf	24
Atodiad A.....	25

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Ffonitro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath yn:

- Ddiogel
- Derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- Derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- Cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- Cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- Cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- Cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- Gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- Cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch staff gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiau allweddol a gweithdrefnau
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion atgyfeirio yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon, ac amddiffyn oedolion agored i niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgysylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

- Gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ymweliad iechyd meddwl ac anabledd dysgu dirybudd ag Ysbyty Llys Llanarth, gyda'r nos ar 11 Mai a thrwy'r dydd ar 12, 13, 14 a 15 Mai 2015.

Cofrestrwyd Ysbyty Llys Llanarth yn gyntaf ym mis Rhagfyr 1992, ac mae wedi'i gofrestru ar hyn o bryd ar gyfer 114 o gleifion ac un gwely brys ar draws saith ward ac un byngalo adsefydlu. Mae pob un o'r saith ward yn lletya cleifion ag anghenion penodol mewn amgylchedd diogel:

- Mae Ward Awen yn ward diogelwch canolig² sy'n lletya uchafswm o 16 o oedolion benywaidd rhwng 18 a 65 oed a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983,³ sydd â diagnosis o anhwylder meddyliol a/neu anhwylder personoliaeth y mae modd ei drin,⁴ neu gyfuniad o'r ddau beth hyn.
- Mae Ward Howell yn ward ddiogelwch canolig sy'n darparu asesiadau a/neu driniaethau i uchafswm o 17 o oedolion gwrywaidd sy'n 18 oed neu'n hŷn ac a gedwir dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac sydd wedi cael diagnosis o anhwylder meddyliol.
- Mae Ward Iddon yn ward ddiogelwch canolig sy'n darparu asesiadau a/neu driniaethau i uchafswm 17 o oedolion gwrywaidd sy'n 18 oed neu'n hŷn a gedwir dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ac sydd wedi cael diagnosis o anhwylder meddyliol.
- Mae Ward Osbern yn ward ddiogelwch isel sy'n darparu asesiadau, adolygiadau a thriniaeth ar gyfer uchafswm o 11 o oedolion gwrywaidd sydd rhwng 18 oed a 65 oed, a gedwir dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac sydd wedi cael diagnosis o anabledau dysgu ffiniol neu ganolig ac sydd ag anghenion iechyd meddwl.

²Gwasanaeth diogelwch canolig – mae unedau diogelwch canolig yn cynnig triniaeth a gofal dwys, cynhwysfawr ac amlddisgyblaethol gan staff cymwys ar gyfer cleifion sy'n arddangos ymddygiad trwblus yng nghyd-destun anhwylder meddyliol difrifol, ac sydd ag angen darpariaeth diogelwch canolig.

³ Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 – deddfwriaeth sy'n rheoli sut mae pobl ag anhwylder meddyliol yn cael eu trin, ac mae'r diffiniad hwn yn cynnwys salwch meddwl, anhwylder personoliaeth ac anabledd dysgu.

⁴Anhwylder personoliaeth – y diffiniad diagnostig yw patrwm parhaus o brofiad ac ymddygiad mewnol sy'n gwyro'n nodedig wrth y disgwyliadau gan ddiwylliant yr unigolyn. Mae'n dreiddiol ac yn anhyblyg, yn dechrau yn ystod y glasod neu yn gynnar mewn oedolaeth, yn sefydlog dros gyfnod amser, ac yn arwain at ofid neu eiddilwch.

- Mae Ward Teilo yn ward ddiogelwch isel⁵ sy'n darparu gwasanaethau adsefydlu ar gyfer uchafswm o 20 o oedolion rhwng 18 oed neu'n hŷn sydd o bosibl yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ac sydd angen triniaeth adsefydlu oherwydd anhwylder meddyliol.
- Mae Ward Treowen yn ward ddiogelwch isel sy'n darparu gwasanaethau adsefydlu ar gyfer uchafswm o 19 o oedolion gwrywaidd sy'n 18 oed neu'n hŷn sydd o bosibl yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ac sydd angen triniaeth adsefydlu oherwydd anhwylder meddyliol. Mae hyn yn cynnwys un gwely y mae angen iddo fod ar gael i gleifion o Ysbyty Annibynnol Aderyn, ger Pont-y-pŵl, pe bai angen iddynt gael gofal dwys a thriniaeth frys yn ystod eu triniaeth adsefydlu gan fod eu hanhwylder meddyliol wedi dychwelyd.
- Mae byngalo Woodland yn wasanaeth agored sy'n darparu gwasanaethau adsefydlu ar gyfer uchafswm o bedwar oedolyn benywaidd rhwng 18 a 65 oed sydd o bosibl yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ac a gafodd eu derbyn gynt i Ward Awen.
- Mae Ward Deri yn wasanaeth diogelwch isel sy'n darparu gwasanaethau asesu ar gyfer uchafswm o 11 o oedolion gwrywaidd sy'n 18 oed neu'n hŷn ac a gedwir dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Bydd gan y cleifion y mae Ward Deri yn eu derbyn anhwylder meddyliol tybiedig, neu byddant wedi cael diagnosis o anhwylder meddyliol.

Yn ystod yr arolygiad pum diwrnod, gwnaethom adolygu pob ward, gan adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu yn cynnwys un adolygydd Deddf Iechyd Meddwl, un adolygydd lleyg, un adolygydd cymheiriaid, a thri aelod o staff AGIC, gan gynnwys un aelod o staff AGIC yn cysgod i'r ymweliad.

⁵Gwasanaeth diogelwch isel – mae unedau diogelwch isel yn cynnig triniaeth a gofal dwys, cynhwysfawr ac amlddisgyblaethol gan staff cymwys ar gyfer cleifion sy'n arddangos ymddygiad trwblys yng nghyd-destun anhwylder meddyliol difrifol, ac sydd ag angen darpariaeth diogelwch isel.

4. Crynodeb

Cynhaliwyd ein harolygiad o Ysbyty Llys Llanarth ym mhob un o'r saith o wardiau. Canfuom fod lle i wella, ond roeddem hefyd yn falch i nodi nifer o ganfyddiadau cadarnhaol.

Nododd AGIC fod y rhan fwyaf o'r staff wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â'r broses arolygu, ac roeddem yn falch o nodi bod y lefelau staffio wedi gwella ers ein hymweliad arolygu blaenorol ym mis Mehefin 2014.

Gwelsom y gwelliannau i'r amgylchedd ar Ward Teilo yr oedd angen eu gwneud ar ôl ein hymweliad ym mis Mehefin 2014, ond roedd rhai wardiau yr oedd angen eu hailwampio a gwneud gwaith cynnal a chadw arnynt o hyd. Yn benodol, roedd angen glanhau'r holl ffenestri'n drylwyr, yn enwedig ar wardiau Deri ac Osbern, oherwydd roedd malurion a bryntni wedi cronni rhwng y ffenestr a'r sgrîn bersbecs. Yn ogystal, roedd yr holl gyfleusterau cegin/gwneud diodydd ar y wardiau diogelwch canolog yn frwnt, ac roedd angen iddynt gael eu glanhau'n drwyadl. Byddai Ward Awen hefyd yn elwa o gael ei hail-addurno oherwydd roedd y ward i'w gweld yn dreuliedig ac roedd marciau ar y waliau.

Gwnaeth ein hadolygiad o gynlluniau gofal y cleifion dynnu sylw at broblemau yn ymwneud â diffygion o ran cofnodi hylifau a defnyddio tawelyddion cyflym, diffyg tystiolaeth o asesu anghenion deietegol, diffyg cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion, a methiant i gofnodi anghenion na chawsant eu diwallu. Wrth i ni fynd i mewn i ystafell glinig dan glo, gwelsom fod y cwpwrdd cyffuriau ar agor a heb ei gloi.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y gwiriadau/archwiliadau clinigol ar Ward Iddon yn gynhwysfawr, gan gyfeirio'n benodol at yr asesiad cyffuriau blynyddol a'r gwerthusiad o arferion diogel.

Dywedodd y staff wrthym am waith tîm amlddisgyblaethol effeithiol, lle roedd y disgyblaethau'n teimlo bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi a'i chefnogi. Roedd y cleifion yn derbyn lefel dda o ymyrraeth seicolegol, ac maent wedi bod yn rhagweithiol o ran mentrau newydd, gan gynnwys therapi sy'n canolbwyntio ar dosturi⁶ a therapi ymddygiad dialectig (DBT)⁷ ar gyfer Ward Awen.

⁶ Mae therapi sy'n canolbwyntio ar dosturi yn therapi integredig sy'n seiliedig ar seicoleg gymdeithasol, seicoleg ddatblygol, seicoleg esblygol a seicoleg Fwdhaid, a niwrowyddoniaeth. Mae hefyd yn tynnu ar lawer o fodelau therapiwtig eraill sydd wedi datblygu ymyriadau ar gyfer mathau penodol o broblemau iechyd meddwl. Am ragor o wybodaeth ewch i: <http://apt.rcpsych.org/content/15/3/199>

⁷ Therapi seicolegol wedi'i gynllunio i helpu pobl newid patrwm ymddygiad nad yw'n effeithiol, megis hunan-niweidio, meddwl am ladd eich hun, a chamddefnyddio sylweddau yw therapi ymddygiad dialectig (DBT). Mae'r dull hwn yn ceisio helpu pobl

Roedd systemau da ac effeithiol ar waith o ran monitro a gweithredu Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Er bod amrywiaeth eang o gyfleusterau mewn cyflwr da i hwyluso gwneud therapïau a gweithgareddau, roedd cyfweiliadau â'r cleifion ac archwiliad o'r cofnodion yn dangos nad oedd gweithgareddau yn cael eu cynllunio ar gyfer y cleifion oherwydd diffyg staff. Roedd yn ymddangos bod hon yn broblem benodol ar Ward Iddon. Roedd hefyd diffyg cyfleoedd i gleifion gael gwaith am dâl, a byddai mwy o gyfleoedd yn y maes hwn o fudd i'r grŵp cleifion.

Roeddem yn falch o nodi bod cyrsiau achrededig mewn llythrennedd, rhifedd a TG, ac roedd nifer o fforymau cleifion a oedd yn galluogi'r cleifion i leisio eu barn am faterion yn ymwneud â'r ysbyty.

Roedd adborth gan nifer sylweddol o'r cleifion yn dangos bod pryderon ynghylch y bwyd a ddarperir yn yr ysbyty. Mae angen i faint y dogn, y ffaith mai dim ond grawnfwydydd sydd i swper, a'r ffaith bod cyw iâr ar bob bwydlen gael eu hadolygu.

Gwnaethom nodi nifer o benderfyniadau a oedd yn ymddangos yn fympwyol. Ar rai wardiau, roedd rheolau cyffredinol ar waith – er enghraifft, roedd yn rhaid i'r cleifion fod i fyny'r grisiau erbyn amser penodol bob nos, ac roedd cyfyngiad ar gael diodydd yn ystod y nos ac ar amserau ysmegu. Rhaid cynnal adolygiad o brosesau mympwyol ar gyfer gwneud penderfyniadau, a rhaid gwneud penderfyniadau ar sail anghenion unigol y cleifion.

Roedd rhaglen gynhwysfawr ar waith ar gyfer hyfforddiant gorfodol y staff, ac roedd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn cyrraedd lefel cydymffurfiaeth o 70%. Roedd angen i nifer sylweddol o staff gael hyfforddiant mewn diogelu, a oedd ar lefel cydymffurfiaeth o 55%, a gwnaethom nodi yn sgil ein trafodaethau â nifer o staff bod diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae angen mynd i'r afael â'r meysydd hyn er mwyn galluogi'r staff i gael sgiliau a gwybodaeth gynhwysfawr i allu darparu gofal priodol i gleifion.

Roedd systemau da ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion, ond roedd rhai o'r cwynion a adolygwyd gennym heb dystiolaeth na rhagor o wybodaeth yn y ffeil i ddangos bod y staff wedi ymdrin â'r cwynion yn briodol. Rhaid i bob cwyn gael ei harchwilio'n drwyadl a'i chofnodi'n fanwl.

i reoli eu hymddygiad emosiynol a gwybyddol yn well trwy ddysgu am nodweddion sy'n sbarduno cyflyrau adweithiol a'u helpu i asesu pa sgiliau ymdopi i'w defnyddio yn ystod trefn digwyddiadau, meddyliau, teimladau ac ymddygiadau sy'n arwain at yr ymddygiad annymunol.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y Ward

Mae Ward Awen yn ward ddau lawr; mae llety'r cleifion ar y llawr isaf, ac mae cyfleusterau'r staff a'r ystafelloedd cyfarfod ar y llawr uchaf. Mae gan ddau goridor wyth o ystafelloedd en suite sengl yr un. Roedd ystafelloedd gwely'r cleifion yn helaeth, ac roedd digon o le ynddynt a manau i storio eiddo'r cleifion.

Roedd corlan y nyrsys yn edrych dros fan cynllun agored lle roedd loceri'r cleifion a'u cotiau'n cael eu storio. Roedd cyfleusterau i wneud diodydd poeth ac oer a rhai cadeiriau ar gael. Roedd y gofod hwn yn fawr, a gwelsom gleifion a staff yn chwarae tenis bwrdd.

Roedd gan y ward nifer o wahanol ystafelloedd, gan gynnwys lolfa deledu, ystafelloedd tawel/cyfarfod, ystafell ofal dwys, ystafell celf a chreffft, ac ystafell fwyta. Roedd y ward yn lân ac roedd digon o le i'r grŵp cleifion. Fodd bynnag, roedd rhai manau yr oedd angen eu hailaddurno am eu bod yn cael eu defnyddio llawer, ac roedd llawer o farciau ar y waliau ac roedd y paent yn plicio.

Roedd gan y cleifion fynediad at ofod awyr agored a oedd yn cynnwys man neilltuedig ar gyfer ysmegu.

Roedd Ward Deri wedi'i threfnu ar ddau lawr, gydag 11 o ystafelloedd gwely ac ystafelloedd golchi ar y llawr uchaf, a phrif fannau'r cleifion ar y llawr isaf. Roedd y ward ar y llawr isaf yn fach, ac yn teimlo'n gyfyng ar gyfer 11 o gleifion. Roedd gan y brif lolfa gadeiriau ar gyfer 11 o gleifion, ac roedd gan yr ystafell fwyta ddigon o gadeiriau a byrddau i'r grŵp cleifion. Roedd ystafell dawel, ond pan gafodd ei hagor ar gyfer un claf, roedd y cleifion eraill eisiau ei defnyddio.

Roedd bonion sigarêts y tu allan i'r prif ddrws ac o gwmpas yr ardd. Yn ystod yr ymweliad nos, gwelsom ysbwriel ar y llawr a chwpanau wedi eu gadael y tu allan. Roedd baw o gwmpas fframiau'r ffenestri, ac yn gyffredinol roedd rhai manau'n teimlo braidd yn frwnt ac yn noeth.

Dywedodd y staff nad oedd digon o le ar gyfer popeth a oedd yn digwydd, gan gynnwys cyfweiliadau a therapïau. Fodd bynnag, roedd gan y cleifion fynediad at y bloc o ystablau, lle roedd llawer o'r gweithgareddau a'r therapïau'n digwydd.

Gwelsom arferion ar y ward a oedd yn rhagnodol – er enghraifft, yr arfer o adael i'r cleifion fynd i'w hystafelloedd gwely ar amserau penodol yn unig. Roedd yn rhaid i'r cleifion fod ar y llawr ar ddiwrnodau gwaith am 8.15 a.m., ac roedd yn rhaid i'r holl gleifion fod i fyny'r grisiau am 9 p.m. bob nos. Roedd y cyfnod ysmegu yn dod i ben am 7.20 p.m. gyda'r nos ar ddiwrnodau gwaith, ac roedd cyfyngiad ar ddiodydd yn gynnar yn y bore a chyda'r hwyr, ac roeddent ar gael ar adegau penodol yn unig.

Roedd Ward Osbern wedi'i threfnu ar ddau lawr, ac roedd ystafelloedd gwely'r cleifion, yr ystafell ymolchi, a'r lolfa deledu ar y llawr uchaf. Ar y llawr daear, roedd ystafell ofal dwys yr oedd modd i'r wardiau ei defnyddio, ac roeddent wedi ei defnyddio o'r blaen. Roedd ystafell fwyta ddymunol gyda digon o gadeiriau a byrddau i'r cleifion, ac roedd mynediad agored at ddiodydd poeth ac oer.

Roedd y lolfa'n fach ac yn brin o le, gyda theledu a chwaraewr DVD a deg o gadeiriau, ond ni welsom unrhyw bapurau newydd neu lyfrau. Roedd ystafell therapi ar gael a oedd hefyd yn cynnwys teledu, ac roedd ystafell gelf a chreffft lle roedd claf wrthi'n gwneud car model.

Roedd ystafell ffonio fach wrth y brif lolfa. Roedd poster â rhif ffôn cyswllt ar gyfer Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol wedi'i arddangos wrth ymyl y ffôn. Roedd ystafell ymwelwyr, clinig a thoiledau ar gael hefyd.

Roedd amgylchedd y ward yn lân, ac roedd yr ystafelloedd ymolchi'n eithriadol o lân. Fodd bynnag, roedd problem cynnal a chadw a oedd angen sylw, sef y baw a welsom rhwng gwydrau'r ffenestri a'r sgrîn bersbecs. Yn ogystal, gwelsom yr anhawster yr oedd y cleifion yn ei gael wrth agor ffenestri eu hystafelloedd gwely. Mae taer angen mynd i'r afael â'r materion hyn.

Roedd yr ardd fach mewn cyflwr da, ac roedd cysgodfa ysmegu ar gael. Roedd y cleifion yn gallu mynd at yr ardd yn ôl eu dymuniad, ond roedd y toriad ysmegu olaf am 7.15 p.m.

Roedd gan Ward Osbern yr un arferion rhwystrol ar waith a welwyd ar Ward Deri, lle ceid mynediad at yr ystafelloedd gwely ar adegau penodol. Fodd bynnag, roedd lolfa deledu ar y llawr uchaf at ddefnydd y cleifion ac er mwyn iddynt allu cymdeithasu.

Roedd Ward Howell mewn cyflwr da yn gyffredinol, ac eithrio'r cyfleusterau gwneud diodydd a'r gegin, a oedd yn frwnt iawn ar adeg ein hymweliad, gydag ysbwriel, colledion coffi a the, a dim tyweli llaw.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun, ac roedd modd iddynt eu cloi a'u personoli â ffotograffau/posteri. Roedd digon o le i storio eiddo'r cleifion yn yr ystafelloedd gwely.

Roedd gan y cleifion fynediad at ardd a oedd yn ddymunol, yn lân ac yn lle y gallent dreulio amser yn yr awyr agored ynddo. Roedd mannau neilltuedig ar gyfer ysmegu.

Roedd hysbysfwrdd gweladwy a oedd yn arddangos gwybodaeth am eiriolaeth, ac roedd ystafelloedd ar gael i'r cleifion gwrdd ag aelodau teulu a chyfeillion. Roedd ffôn ar gael hefyd at ddefnydd y cleifion.

Roedd byngalo Woodlands yn olau, yn awyrog ac yn gartrefol. Roedd y lolfa'n cynnwys teledu a chonsol gemau, roedd casgliad mawr o DVDau wedi ei storio mewn cwpwrdd llyfrau, ac roedd rac cylchgronau'n cynnwys casgliad o gylchgronau hefyd. Roedd lluniau ar y waliau ac roedd addurniadau eraill megis trefniad blodau a oedd yn gwneud iddi deimlo'n gartrefol. Fodd bynnag, ni welwyd gwybodaeth am eiriolaeth.

Roedd gan Woodlands gegin gynllun agored/man bwyta a oedd yn lân ac yn daclus. Roedd dau fwrdd ac wyth cadair ar gael at ddefnydd y cleifion. Roedd gwaith celf gan y cleifion wedi'i arddangos ar waliau'r man bwyta, ac roedd ffenestr y gegin yn edrych dros yr ardd daclus, breifat.

Roedd gan Ward Iddon fan diodydd brwnt ac roedd y biniau'n llawn yno. Roedd drws wedi'i ddifrodi ac wedi dod oddi ar ei golynnau ar ôl digwyddiad tua dau neu dri diwrnod cyn ein hymweliad. Mae angen sylw ar unwaith ar y drws, ac mae angen ei drwsio.

Ar adeg ein hymweliad, nid oedd y drws i swyddfa'r ward yn cau heb i rywun ei wthio ar gau. Dywedodd staff y drws ei fod wedi bod fel hyn ers peth amser, ac mae'n bwysig rhoi sylw i hwn er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion, yn ogystal â chyfrinachedd gwybodaeth y cleifion.

Gwelsom fod llawer o faw a malurion wedi cronni y tu ôl i'r sgrîn bersbecs ar y ffenestri, ac mae taer angen ei lanhau.

Roedd gardd â chyfleusterau ysmegu ar gael i'r cleifion. Roedd y ward wedi mynd i'r afael â'r broblem o fonion sigarêts ar lawr y patio drwy adeiladu blychau llwch pren a oedd wedi eu diogelu i fyrddau.

Roedd gan Ward Treowen lolfa gynllun agored, ond roedd rhai o'r cadeiriau wedi rhwygo ac roedd rhai cadeiriau heb glustogau. Roedd nifer o hysbysfyrddau wedi eu harddangos a oedd yn cynnwys gwybodaeth am eiriolaeth, gweithgareddau, cwynion, amserlen ar gyfer toriadau ysmegu, amserlen y bysiau, gwybodaeth am dorri gwallt, a chanlyniadau materion yn ymwneud ag ansawdd o fis Rhagfyr i fis Chwefror 2015. Roedd bwrdd pŵl, cyfarpar oeri dŵr, a silff lyfrau ar gael hefyd yn y lolfa gynllun agored.

Roedd lolfa deledu ar wahân ar gael hefyd at ddefnydd y cleifion, gyda theledu a chwe chadair. Roedd y cadeiriau wedi eu trefnu o gwmpas rhan allanol y waliau ac roeddent i'w gweld yn fudr.

Roedd consol gemau, silff lyfrau, bwrdd gemau a loceri i'r cleifion yn yr ystafell gemau. Roedd gan bob claf ei allwedd ei hun i'w locer, ac roeddent yn gallu storio eu heiddo personol yn ddiogel.

Roedd pum bwrdd yn yr ystafell fwyta ac 15 o gadeiriau, a dywedwyd wrthym fod dau eisteddiad am bob pryd bwyd. Roedd basged o ffrwythau a phowliau o rawnfwydydd ar gael, ac roedd oergell ar gael yn cynnwys brechdanau i'r staff.

Roedd gan y ward ystafell ymwelwyr, ystafell olchi dillad, ac ystafell ofal dwys. Yn gyffredinol, roedd yr amgylchedd yn olau, yn helaeth, ac mewn cyflwr da, ac eithrio'r cadeiriau a oedd wedi eu rhwygo ac a oedd heb glustogau. Gwelwyd bod mygiau yn y lolfa, a bod rhai ohonynt yn wag ac eraill yn cynnwys hylif ar ôl ynddynt, a oedd yn rhoi'r argraff bod y ward yn aflêr. Gwelwyd bod staenau ar rai o'r carpedi, ac nid oedd ffôn talu y cleifion yn gweithio, ac nid oedd wedi bod yn gweithio ers o leiaf dau ddiwrnod. Mae angen sylw ar y manau hyn.

Roeddem yn falch o nodi'r gwelliannau a'r gwaith addurno, gan gynnwys llawr newydd ar Ward Teilo ers ein hymweliad diwethaf ym mis Mehefin 2014. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad, gwelodd claf deils a oedd wedi cwmpo oddi ar y to, ac mae angen mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau diogelwch yr holl gleifion a'r staff. Ar adeg ein hymweliad, roedd y cleifion yn profi tri math o gadair yn y lolfa gynllun agored, yng ngoleuni'r bwriad i newid y cadeiriau treuliedig.

Roedd dwy ystafell ymwelwyr ar Ward Teilo, ac un ystafell gynadledda. Roedd coridor therapi yn cynnwys ystafelloedd ar gyfer therapi grŵp, addysg, a chelf a chreffft. Roedd lolfa dawel ac ystafell gemau/teledu ar gael hefyd at ddefnydd y cleifion. Roedd lluniau a hysbysfwrdd wedi eu harddangos a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth barbwr a *Recovery Star*, ond ni welwyd gwybodaeth am eiriolaeth.

Roedd yr ystafell fwyta'n fawr, yn olau ac yn awyrog, ac roedd digon o seddi i'r cleifion a'r staff fwyta gyda'i gilydd.

Tynnodd trafodaethau â'r staff cadw tŷ sylw at y ffaith bod gan gleifion Ward Teilo fynediad 24 awr at eu hystafelloedd gwely, ac roedd hyn wedi achosi problemau i'r staff cadw tŷ. Roedd dau glaf yn ymddwyn mewn ffordd ymosodol, ac o ganlyniad i hyn roedd yn rhaid i'r staff cadw tŷ fynd oddi ar y ward, ac felly nid oeddent yn gallu cwblhau eu dyletswyddau. Roeddem yn falch o nodi bod y rheolwyr yn mynd i fynd i'r afael â'r mater hwn, a'u bod yn

mynd i gyfyngu ar fynediad at yr ystafelloedd am gyfnod er mwyn galluogi'r staff i lanhau ystafelloedd gwely'r cleifion.

Gofynion

Mae angen rhoi rhaglen cynnal a chadw ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen sylw, yn benodol:

- ***ailaddurno Ward Anwen***
- ***gosod drws newydd yn lle'r drws sydd wedi torri ar Ward Iddon***
- ***trwsio drws swyddfa'r ward ar Ward Iddon a sicrhau ei fod yn cau'n iawn***
- ***glanhau'r ffenestri'n drwyadl i waredu unrhyw faw neu falurion o'r gofod rhwng gwydr y ffenestr a'r sgrîn bersbeccs. Mae angen i'r gerddi gael eu glanhau ac mae angen mynd â'r bonion sigarêts oddi yno. Mae angen glanhau'r gegin a'r cyfleusterau diodydd yn drwyadl***
- ***gosod teils newydd ar do Ward Teilo***
- ***cael gwared ar unrhyw seddau sydd wedi rhwygo, sydd heb glustogau, neu sy'n frwnt, a gosod cadeiriau newydd yn eu lle***
- ***atgyweirio'r ffenestri yr oedd y cleifion yn ei chael yn anodd eu hagor, neu brynu rhai newydd yn eu lle***

Mae angen i'r arferion cyfyngol a welwyd ar wardiau Deri ac Osbern gael eu hadolygu i sicrhau bod yr arferion sydd ar waith yn fuddiol i'r grŵp cleifion.

Mae angen adolygiad o wybodaeth eiriolaeth er mwyn sicrhau bod gwybodaeth eiriolaeth gynhwysfawr ar gael yn y manau sydd heb lawer o wybodaeth neu heb unrhyw wybodaeth.

Diogelwch

Roedd gan holl staff y ward larymau personol, a phan oedd unrhyw ymwelydd yn mynd i mewn i ward gofynnwyd iddo gwblhau'r llyfr ymwelwyr. Roedd gan bob ward nyrs ddiogelwch benodedig oedd yn sicrhau bod larymau diogelwch

yn cael eu dosbarthu yn ôl yr angen, a bod ymwelwyr yn llofnodi'r llyfr ymwelwyr.

Gwnaeth rhai cleifion o wardiau Iddon, Awen a Teilo fynegi pryderon ynghylch eu diogelwch; yn benodol, roedd cleifion eraill wedi ymosod arnynt ac roedd problemau sŵn, megis gweiddi a chlepiant drysau, ac roedd hyn yn gwneud iddynt deimlo nad oeddent yn ddiogel.

Mynegodd rhai staff bryderon ynghylch diogelwch, gan gwestiynu p'un a oes digon o sylw'n cael ei roi i hyn ar lefel y ward, oherwydd digwyddiad ar Ward Iddon ac eitemau ar Ward Awen y gellid eu defnyddio i hunan-niweidio. Gwnaeth rhai staff godi pryderon hefyd bod yna wedi bod adegau ar wardiau megis Deri ac Osbern lle roedd yr amgylchedd yn heriol o ganlyniad i bersonoliaeth rhai o'r cleifion ar y ward, a'r diffyg lle yn y wardiau hyn o gymharu â wardiau eraill. Felly roedd yn rhaid i'r staff ddad-ddwysáu sefyllfaoedd mor gyflym â phosibl oherwydd y diffyg lle yn y wardiau hyn.

Gofynion

Mae angen adolygiad o'r arferion ym mhob ward er mwyn sicrhau bod y staff yn aros yn wylidwrus, a bod asesiadau risg priodol a chadarn yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Y tîm amlddisgyblaethol

Gwnaeth yr holl staff y siaradom â nhw sylwadau cadarnhaol ynglŷn â dull y tîm amlddisgyblaethol o weithio. Dywedodd y staff fod cyfarfodydd amlddisgyblaethol yn digwydd yn rheolaidd, a chaiff pob disgyblaeth ei chynrychioli gan gynnwys seicoleg, therapi galwedigaethol, staff meddygol, a nyrsys. Dywedodd y staff wrthym fod y cyfarfodydd amlddisgyblaethol yn rhai cydweithredol lle y lleisir barn a safbwyntiau gan y disgyblaethau i gyd a lle mae'r staff yn teimlo bod parch i'w gilydd.

Preifatrwydd ac urddas

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion y siaradwyd â nhw fod eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael eu parchu drwy'r ysbyty. Dywedodd bron yr holl gleifion y siaradwyd â nhw fod y staff wedi eu dangos o gwmpas y ward pan gawsant eu derbyn, a'u bod wedi cael esboniad o'r hyn fyddai'n digwydd. Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun, ac roeddent yn gallu cloi'r drws o'r tu mewn.

Roedd gan yr holl gleifion fynediad at ffôn talu er mwyn cadw mewn cyswllt â'u teuluoedd a'u ffrindiau, ac roedd rhai cleifion yn gallu defnyddio ffôn y ward i wneud galwadau a derbyn galwadau.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn gallu cwrdd â'u nyrs enwebedig yn breifat a bod ystafelloedd ar gael hefyd i'r cleifion allu cwrdd â'u teulu a'u ffrindiau'n breifat.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Roedd gan Lys Llanarth amrywiaeth eang o gyfleusterau mewn cyflwr da i hwyluso gwneud therapïau a gweithgareddau. Roedd gan bob ward therapydd galwedigaethol a therapydd galwedigaethol cynorthwyol amser llawn, ac eithrio Ward Deri, a oedd â darpariaeth ran-amser. Roedd pob claf a oedd yn cael ei dderbyn i'r ysbyty yn cael ei asesu gan therapydd galwedigaethol, ac ar ôl cael asesiad rhoddwyd amserlen unigol i'r cleifion a oedd yn cynnwys amryw weithgareddau therapiwtig, yn ogystal â gweithgareddau ar y ward. Cafodd amserlenni eu hadolygu a'u newid bob 12 wythnos.

Roedd y cyfleusterau a oedd ar gael oddi ar y wardiau'n cynnwys canolfan arddwriaethol a chreffft a oedd yn trefnu amryw weithdai i'r cleifion, gyda mynediad at dai gwydr a gerddi mawr. Roedd llawer o gyfarpar yn y bloc o ystablau, ac roedd yn cynnwys campfa a oedd ar agor bob dydd. Roedd y neuadd chwaraeon yn ddigon mawr ar gyfer pêl-droed pump bob ochr a gemau badminton. Roedd dwy gegin a ailwampwyd yn ddiweddar a oedd yn cynnwys llawer o gyfarpar i'r cleifion allu gwneud sesiynau coginio, ac roedd ystafell gelf a chreffft ar gael, yn ogystal â phwll nofio a chlwb cymdeithasol. Roedd y clwb cymdeithasol newydd gael ei addurno, ac roedd yn cynnwys jiwcbocs, byrddau pŵl a thenis bwrdd, bwrdd dartiau, hoci aer, taflunydd ar gyfer ffilmiau, llyfrgell, siop, ac ystafell addysg â chyfeirlyfrau a chyfrifiaduron. Roedd amserlen ar gyfer defnyddio'r cyfleusterau hyn, ac roedd modd eu harchebu am sesiynau un i un.

Roeddem yn falch o nodi bod cyrsiau agored gan Rwydwaith y Coleg Agored mewn llythrennedd, rhifedd a TG yn cael eu cynnig i'r cleifion. Roedd llawer o gleifion yn elwa ar arddwriaeth ac yn ymddiddori'n fawr ynddi, ac fe fyddai'n fuddiol, felly, i ddod o hyd i ffordd o gynnig achrediad mewn garddwriaeth.

Gwelsom ar rai wardiau fod y cleifion yn gwneud celf a chreffft, yn chwarae gemau bwrdd a/neu gemau cyfrifiadur, yn darllen llyfrau/papurau newydd, yn gwneud modelau, yn chwarae cardiau, ac yn gwyllo teledu. Gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn cwis, a dywedodd rhai cleifion nad oeddent yn teimlo bod digon o weithgareddau'n cael eu cynnig i'w diddanu pan oedd yn rhaid iddynt aros ar eu ward, a'u bod yn diflasu.

Prin iawn oedd y cyfleoedd am waith am dâl, ond wrth i'r caffï gael ei sefydlu, gallai hyn olygu bod rhai cyfleoedd i'r cleifion.

Roedd gwasanaethau seicoleg ar gael i'r cleifion ledled yr ysbyty, ac roedd o leiaf un seicolegydd ar bob ward. Roedd cleifion newydd yn cael eu hasesu o fewn eu tri mis cyntaf yn yr ysbyty, ac yna roedd ymyriadau'n dechrau ar gyfer y cleifion. Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn derbyn un sesiwn un i un bob wythnos, ac roeddent yn mynychu sesiynau grŵp os oedd yn briodol. Roedd sesiynau grŵp yn cynnwys ymwybyddiaeth o sylweddau ac o gamddefnyddio sylweddau, sgiliau meddwl, rheoli dicter, ymwybyddiaeth fyfyrion, a therapi sy'n canolbwyntio ar dosturi.

Dywedodd yr adran seicoleg wrthym eu bod yn agored i gyflwyno a darparu gwahanol therapïau. Roeddent wedi chwarae rhan bwysig wrth lunio'r amserlen 12 wythnos, ac o ran datblygu mentrau newydd megis y therapi sy'n canolbwyntio ar dosturi a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae'r adran seicoleg yn cydweithio â'r staff nyrsio i ddarparu therapïau seicolegol i gleifion, ac maent yn rheoli lefelau straen y staff drwy hyfforddiant gwydnwch i'r staff, a sesiynau ymarfer myfyriol.

Dywedodd y staff a'r cleifion wrthym fod nyrs gofal iechyd corfforol ar gael, a bod mynediad at wasanaethau meddyg teulu hefyd. Roedd deintydd yn ymweld â'r ysbyty bob pythefnos, ond mae'r staff yn gwneud apwyntiadau i gleifion os oes achos brys.

Ar adeg ein hymweliad, nid oedd therapydd galwedigaethol yn bresennol ar y penwythnos, ond dywedodd y staff eu bod yn gweithio ar y penwythnos pan oedd angen. Dywedodd y staff wrthym fod y penwythnosau'n fwy hamddenol, a bod gan y cleifion fynediad at eu hystafelloedd gwely am gyfnod hirach, a bod y staff yn trefnu gweithgareddau i'r cleifion yn ôl eu dymuniadau.

Oherwydd diffyg staff ar Ward Iddon, dywedodd y cleifion nad oeddent bob amser yn cael mynd am dro am hanner awr bedair gwaith y dydd, fel y rhagnodwyd ar eu cyfer. Dywedodd y cleifion eu bod yn ffodus i fynd am dro unwaith ar rai diwrnodau. Cadarnhawyd hyn gan y staff, a ddywedodd eu bod hefyd yn teimlo'n rhwystredig pan nad oeddent yn gallu darparu'r gweithgareddau o ganlyniad i ddiffyg staff.

Roedd eiriolwr ar gael i roi cymorth i'r cleifion yn Llys Llanarth, a dywedodd y cleifion fod mynediad at y gwasanaeth hwn yn dda. Gwnaeth y staff ganmol y gwasanaeth a ddarperid i'r cleifion yn fawr. Roedd rhywfaint o ddryswch ymhlith y staff ynghylch annibyniaeth yr eiriolwr. Cafwyd y dryswch hwn oherwydd roedd yr eiriolwr yn dod i'r ysbyty'n rheolaidd ac mae ganddo swyddfa ym mhrif adeilad y swyddfeydd. Eglurwyd bod yr eiriolwr yn annibynnol, a'i fod yn mynychu llawer o gyfarfodydd a fforymau'r cleifion, a'i fod hefyd yn ymdrin â cheisiadau unigol.

Ar dair ward, nid oeddem yn gallu dod o hyd i wybodaeth gyswllt ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol yn ystod ein hymweliad.

Er gwaethaf y trefniadau presennol y cawsom adborth cadarnhaol yn eu cylch, ni ddylid tanbriso pa mor bwysig ydyw i'r cleifion allu cysylltu ag eiriolwr iechyd meddwl annibynnol pe baent yn dymuno.

Roedd y ffaith bod gwasanaethau eraill i gynorthwyo'r cleifion, gan gynnwys gweithiwr cymdeithasol, ficer, a gwasanaeth *Pets as Therapy*, yn enghraifft o arferion nodedig.

Gofynion

Mae angen cyflwyno cyfleoedd i'r cleifion wneud gwaith am dâl.

Mae angen adolygu'r lefelau staffio, yn enwedig ar Ward Iddon, er mwyn sicrhau nad yw gweithgareddau'r cleifion yn cael eu canslo oherwydd diffyg staff.

Argymhelliad

Mae angen ystyried estyn y ddarpariaeth o gyrsiau achrededig i'r cleifion, yn enwedig ar gyfer garddwriaeth.

Bwyd a maeth

Mae'r cleifion yn Llys Llanarth yn derbyn pedwar pryd bwyd y dydd, gan gynnwys brecwast a weinir o 8.30 a.m., cinio am 12.30 p.m., te am 5 p.m. a swper yn hwyrach gyda'r nos. Mae'r staff arlwygo yn paratoi ac yn gweini hyd at 400 o brydau bwyd y dydd, a goruchwyliwyd y gwaith hwn gan y rheolwr arlwygo a'r prif gogydd. Roedd yr holl fwyd yn cael ei baratoi a'i goginio yn y brif gegin, ac roedd dwy o'r wardiau'n cael eu gwasanaethu ohoni. Roedd y wardiau eraill yn cael eu gwasanaethu gan chwe chegin ddibynnol, ac roedd y bwyd yn cael ei anfon atynt o'r brif gegin gan ddefnyddio trolïau arlwygo.

Roedd y bwydlenni'n cylchdroi bob chwe wythnos, ond cadarnhaodd y staff arlwygo bod rhywfaint o hyblygrwydd i newid hyn pe bai angen oherwydd y tywydd. Cadarnhaodd trafodaethau â'r staff fod dewis o fwydydd ar gael, a chadarnhawyd hyn gan y bwydlenni a welsom yn ystod ein hymweliad. Roedd bwydlen ginio o Ward Awen yn rhoi pedwar dewis i'r cleifion. Roedd taten bob gyda dewis o bedwar llenwad. Roedd pedwar prif opsiwn pryd bwyd ar gael, gan gynnwys saladau, omlet neu blât o ffrwythau, a dewis o frechdanau neu ffyn bara gydag amryw lenwadau. Ar fwydlen de yn Ward Iddon yr opsiynau bwyd oedd tatws pob a llenwadau, brechdanau a ffyn bara. Y prif opsiynau bwyd oedd cyw iâr gyda llysiau, tatws neu salad, stecen o borc gyda thatws a llysiau, neu darten ratatouille wedi'i phobi. Roedd y fwydlen yn cynnig un dewis o bwddin.

Dywedodd y staff wrthym fod darpariaeth ar gyfer cleifion â deiet penodol/arbennig, gan gynnwys bwyd figan, Hari Krishna, anoddefiad i glwten, a deietau Halal. Roedd gan yr ysbyty o leiaf deg o gleifion diabetig, ac mae'r prif gogydd yn cwrdd â chleifion sydd â phroblemau â'u deiet ac yn trafod yr hyn sy'n addas o'r fwydlen. Rhoddwyd bwydlen ddeiet meddal ar waith i glaf yr oedd ei holl ddannedd wedi cael eu tynnu.

Ar adeg ein hymweliad, nid oedd deietegydd yn gweithio yno, ond roedd un newydd wedi cael ei benodi.

Roedd yr adborth gan y cleifion ynghylch y bwyd yn gymysg; dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw nad oeddent yn mwynhau'r prydau a oedd yn cael eu gweini. Y prif bryderon y dywedodd y cleifion wrthym amdanynt oedd nad oedd maint y dognau'n ddigon mawr, a'r ffaith bod cyw iâr ar bob bwydlen a bod grawnfwydydd yn unig am swper. Dywedodd y cleifion eu bod yn arfer cael brechdanau am swper, ond bod hyn wedi dod i ben a'u bod yn cael powlen o rawnfwyd yn unig bellach. Dywedodd y staff arlwygo wrthym eu bod wedi cael cyfarwyddyd i beidio â rhoi brechdanau ar gyfer amser swper. Mae angen adolygu asesiad o faint y dognau, o roi grawnfwydydd yn unig i swper, ac o barhau i roi cyw iâr ar bob bwydlen er mwyn sicrhau bod digon o amrywiaeth a bod meintiau'r dognau'n ddigonol.

Darperid digon o ffrwythau ffres i bob ward i'r cleifion eu bwyta, ac roedd diodydd a byrbrydau ar gael y tu allan i amseroedd bwyd. Roedd y cleifion yn gallu prynu a storio eu bwyd eu hunain.

Roedd cyfarfodydd misol ar gyfer y pwyllgor arlwygo, ac roedd cynrychiolwyr o bob ward yn gallu trafod eu pryderon. Roedd y trafodaethau'n cael eu cofnodi, ond nid oedd tystiolaeth i ddangos canlyniadau'r cyfarfodydd blaenorol.

Mynegodd rhai staff bryderon ynghylch cleifion yn cael prydau parod, ac ynghylch cael dim rheolaeth dros gleifion yn bwyta byrbrydau. Roedd cynlluniau ar waith i'r staff ar bob ward, can gynnwys staff arlwygo, gael hyfforddiant maetheg er mwyn iddynt allu addysgu'r cleifion am fwyta'n iach, ond nid oedd dyddiad penodol wedi'i bennu ar gyfer gwneud hyn.

Gwelsom bryd bwyd amser te'n cael ei weini ar Ward Teilo, a gwnaethom nodi'r dewis o fwydydd a oedd ar gael i'r cleifion. Roedd y dognau i'w gweld yn ddigonol, ac roedd y bwyd yn ymddangos yn eithaf blasus, ond roedd y cleifion yn anfodlon ac roeddent yn cwyno am faint y dogn ac am y sglodion oer.

Gwnaeth trafodaethau â'r staff arlwygo dynnu sylw at eu hymrwymiad i ddarparu bwyd o ansawdd da, a dewis ac amrywiaeth dda o fwyd i'r cleifion a'r staff.

Gofynion

Mae angen adolygu maint y dognau, a'r arfer o roi grawnfwydydd yn unig i swper, ac o roi cyw iâr ar bob bwydlen er mwyn sicrhau bod gan gleifion digon o fwyd ac amrywiaeth.

Mae angen i unrhyw ganlyniadau o gyfarfodydd pwyllgor arlwyyo misol blaenorol gael eu cofnodi i ddangos tystiolaeth o gynnydd yn y meysydd a nodwyd.

Hyfforddiant

Gwnaethom adolygu deg o ffeiliau staff, gan nodi mor drefnus oeddent; roedd hyn yn sicrhau ei fod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth berthnasol. Roedd gan bob ffeil dabl cynnwys â gwybodaeth wedi'i ffeilio yn yr adran briodol.

Roedd pob ffeil a adolygwyd yn cynnwys gwybodaeth hanfodol ynglŷn â chyflogaeth yr unigolyn, gan gynnwys geirdaon, nodiadau cyfweiliad, swydd-ddisgrifiad, ffurflen gais, llythyr cynnig, Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a'r datganiad cyn-cyflogi o ffitrwydd meddygol. Cafodd yr holl gofrestrïadau proffesiynol eu gwirio ar-lein gan yr adran adnoddau dynol, ac roedd system ar waith i gofnodi'r wybodaeth hon. Mae'r adran adnoddau dynol yn cynnal gwiriadau misol i sicrhau bod yr holl gofrestrïadau proffesiynol yn gyfredol.

Gwnaethom nodi a chymeradwyo'r arfer da a fabwysiadwyd gan Ysbyty Llys Llanarth ar gyfer adnewyddu gwiriadau'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rheolaidd. Mae'r arfer hwn yn sicrhau bod gwiriad annibynnol gan yr ysbyty sy'n helpu i ehangu gallu'r sefydliad i asesu gonestrwydd a chymeriad ei staff.

Roedd system arfarnu ar waith, a dywedodd rhai staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi derbyn arfarniad o fewn y 12 mis diwethaf.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn derbyn goruchwyliaeth gan y rheolwyr yn fisol, a bod hon yn cael ei chofnodi. Adroddwyd bod goruchwyliaeth glinigol yn digwydd yn ôl yr angen. Dywedwyd wrthym fod rhai staff yn ystyried goruchwyliaeth glinigol fel 'dadlwytho gwendidau' ac felly nid oeddent yn awyddus i'w chael. Mae'r canfyddiadau hyn yn negyddol ac mae pryderon yn codi ynghylch y diwylliant ar rai wardiau, a sut gall staff heb oruchwyliaeth glinigol gefnogi a hybu arferion gwell i hybu safonau'r gofal.

Roedd rhaglen hyfforddiant gorfodol cynhwysfawr ar waith ar gyfer yr holl staff, ac roedd yr ystadegau'n dangos bod cyfraddau cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant yn 70% neu'n fwy, ac eithrio Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed, a oedd ar lefel gydymffurfiaeth o 55%. Roedd y ffeiliau staff a adolygwyd yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd gan chwech o blith y deg o

gyflogeion hyfforddiant cyfredol yn y maes hwn. Mae'n hanfodol i'r holl staff dderbyn hyfforddiant mewn diogelu oedolion sy'n agored i niwed er mwyn sicrhau bod gan y staff wybodaeth gyfredol.

Roedd y sefydliad wedi buddsoddi mewn system e-ddysgu a fyddai'n mynd yn fyw ym mis Mehefin 2015. Bydd y system newydd yn galluogi'r staff i wneud rhai cyrsiau yn eu hamser eu hunain, gan gynnwys eu gwneud gartref os oes angen. Roedd cyfrifiaduron ychwanegol yn cael eu gosod i'r staff eu defnyddio ar y safle yn Ysbyty Llys Llanarth er mwyn i'r staff gwblhau hyfforddiant ar-lein.

Roedd nifer o staff y gwnaethom siarad â nhw nad oeddent wedi derbyn unrhywbeth am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ac nid oeddent yn gwybod unrhywbeth amdanynt. Roedd y diffyg gwybodaeth hwn yn destun pryder, ac mae hwn yn faes y mae angen mynd i'r afael ag ef er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r Trefniadau Diogelu.

Gwnaeth adolygiad o'r cwynion amlygu bod y system sydd ar waith yn un gynhwysfawr. Roedd y cofnod cwynion yn cynnwys trosolwg o'r holl gwynion, ac roedd gan yr holl gwynion a adolygwyd lythyrau yn y ffeil am y canlyniad.

Roedd dwy gŵyn anffurfiol heb unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth bellach yn y ffeil i ddangos tystiolaeth bod y cwynion wedi derbyn sylw priodol. Nododd un gŵyn fod y prif nyrs wedi siarad â'r staff dan sylw, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth o hyn yn y ffeil. Nododd y gŵyn arall fod y prif nyrs wedi ymchwilio i'r honiad, ond nid oedd unrhywbeth yn y ffeil i gadarnhau bod hyn wedi digwydd. Mae'n bwysig i unrhyw gamau gweithredu gael eu cofnodi a'u rhoi yn y ffeil i ddangos tystiolaeth bod y weithdrefn gyfan wedi'i dilyn cyn cyrraedd y canlyniad.

Gwnaethom nodi bod y posteri Canlyniadau Cwynion yn enghraifft o arfer nodedig. Mae'r swyddog cwynion yn cynhyrchu posteri, ac mae'r rhain yn cael eu harddangos ym mhob ward i dynnu sylw at gwynion cyffredin a'u canlyniadau. O ganlyniad, mae'r holl gleifion yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn yr ysbyty sy'n destun pryder i gleifion.

Yn ogystal, roedd nifer o fforymau ar waith er mwyn gallu trafod barn a phryderon y cleifion ac i'w cofnodi. Mae cynrychiolydd cleifion o bob ward yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor Cleifion bob mis. Yn y cyfarfodydd, mae'r cleifion yn cyflwyno materion sy'n benodol i'w ward. Caiff y cyfarfodydd eu cofnodi, ac mae nifer o uwch staff Llys Llanarth yn eu mynychu. Roedd Pwyllgor Arlwygo ar waith hefyd, lle roedd cynrychiolwyr cleifion o bob ward yn trafod pryderon a materion a gasglwyd o'u cyd-gleifion yn ymwneud â bwyd. Caiff y trafodaethau eu cofnodi, ac mae nifer o staff Llys Llanarth yn eu mynychu, yn ogystal â'r eiriolwr.

Roeddem yn falch o nodi'r gwelliant ers ein hymweliad ym mis Mehefin 2014 o ran casglu gwybodaeth ar gyfer staff asiantaeth. Gwnaethom adolygu dau basbort staff asiantaeth, ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth, gan gynnwys gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, geirdaon, ffurflen gais, gwybodaeth gynefino, a thystysgrifau hyfforddiant. Dywedwyd wrthym fod Llys Llanarth wedi recriwtio llawer mwy o staff banc ac y bydd hyn yn golygu lleihad sylweddol yn nifer y staff asiantaeth a ddefnyddir ganddynt. Fodd bynnag, os oes angen staff asiantaeth, roedd y staff yn ymwybodol o'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt gan asiantaethau i sicrhau eu bod yn addas.

Gofynion

Mae angen goruchwyliaeth glinigol ar yr holl staff (perthnasol) er mwyn sicrhau bod y staff yn gallu cefnogi a hyrwyddo gwelliant mewn arferion a safonau ledled yr ysbyty.

Yr holl staff i dderbyn hyfforddiant mewn Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed er mwyn sicrhau bod gan y staff wybodaeth a sgiliau cyfredol.

Mae angen i hyfforddiant yn y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gael ei gyflwyno er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn y maes hwn.

Mae angen i bob cwyn anffurfiol gael gwybodaeth gynhwysfawr yn y ffeil a thystiolaeth i ddangos y rheswm am y canlyniad.

Defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol 11 o'r cleifion a gedwir ac a oedd yn derbyn gofal ar saith o'r wardiau adeg ein hymweliad. Nodwyd y materion nodedig canlynol:

- Roedd gan y ffeiliau a adolygwyd daflen fynegai ar y blaen a oedd yn ei wneud yn hawdd dod o hyd i bethau
- Roedd absenoldeb Adran 17 ar gyfrifiadur, ac roedd wedi'i adolygu fel rhan o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, gyda chyfraniad y cleifion wedi'i gofnodi fel rhan o'r broses, a gwnaethom nodi bod hwn yn enghraifft o arferion da
- PATHNAV oedd y llwybr gofal i gleifion, ac roedd yn fodd o gofnodi barn y cleifion a'i chynnwys wrth wneud penderfyniadau
- Roedd CO2 a CO3 ar gael ar y wardiau
- Roedd statws cyfreithiol a gwybodaeth arall ar y system gyfrifiadurol Nodiadau Gofal
- Roedd ffurflenni CO2 ar y system gyfrifiadurol
- Mynediad uniongyrchol at gyngor cyfreithiol yn ôl yr angen
- Rhestr wirio derbyn yn y ffeiliau Deddf Iechyd Meddwl

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cynllunio gofal a thriniaethau yn Ward Iddon ar gyfer tri o gleifion a nodi'r canlynol:

- Nid oedd y cofnodion ymwahanu ar gyfer un claf yn adlewyrchu'r hylifau a roddwyd i'r claf, ac roedd y rhai a gofnodwyd yn annigonol
- Rhoddwyd tawelyddion cyflym ar ddau achlysur, ac nid oedd yr arsylwadau a gofnodwyd o ran amlder yn cyd-fynd â chanllawiau'r ysbyty ar gyfer defnyddio tawelyddion cyflym
- Nid oedd tystiolaeth o asesu anghenion deietegol gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a phrin oedd y dystiolaeth o reoli pwysau
- Nid oedd un o'r ffeiliau a adolygwyd yn cynnwys cynllunio ar gyfer rhyddhau
- Roedd anghenion na chawsant eu diwallu ar bob un o'r tair ffeil a adolygwyd gennym

Cam gofynnol

Mae angen adolygu a diweddarau'r cynlluniau gofal er mwyn sicrhau bod y cofnodion hylifau yn adlewyrchu'r hylifau a roddwyd; bod cofnodion yn cael eu cwblhau yn unol â'r canllawiau; bod asesiadau o anghenion deietegol ar gael; bod cynlluniau rhyddhau ar waith; a bod anghenion na chawsant eu diwallu yn cael eu cofnodi.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i Ysbyty Llys Llanarth gwblhau Cynllun Gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Llys Llanarth yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella
Darparwr: Partneriaethau mewn Gofal
Ysbyty: Llys Llanarth
Dyddiad yr arolygiad: 11–15 Mai 2015

Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<p>Mae angen rhoi rhaglen cynnal a chadw ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen sylw, yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none">• ailaddurno Ward Anwen• gosod drws newydd yn lle'r drws sydd wedi torri ar Ward Iddon• trwsio drws swyddfa'r ward ar Ward Iddon a sicrhau ei fod yn cau'n	26 (2) (a) (b)			

<p>iawn</p> <ul style="list-style-type: none"> • glanhau'r ffenestri'n drwyadl i waredu unrhyw faw neu falurion o'r gofod rhwng gwydr y ffenestr a'r sgrîn bersbecks. Mae angen i'r gerddi gael eu glanhau ac mae angen mynd â'r bonion sigarêts oddi yno. Mae angen glanhau'r gegin a'r cyfleusterau diodydd yn drwyadl • gosod teils newydd ar do Ward Teilo • cael gwared ar unrhyw seddau sydd wedi rhwygo, sydd heb glustogau, neu sy'n frwnt, a gosod cadeiriau newydd yn eu lle 				
---	--	--	--	--

<ul style="list-style-type: none"> atgyweirio'r ffenestri yr oedd y cleifion yn ei chael yn anodd eu hagor, neu brynu rhai newydd yn eu lle 				
<p>Mae angen i'r arferion cyfyngol a welwyd ar wardiau Deri ac Osbern gael eu hadolygu i sicrhau bod yr arferion sydd ar waith yn fuddiol i'r grŵp cleifion.</p>	<p>15 (1) (a) (b) (c) a 19 (1) (a) (b)</p>			
<p>Mae angen adolygiad o wybodaeth eiriolaeth er mwyn sicrhau bod gwybodaeth eiriolaeth gynhwysfawr ar gael yn y manau sydd heb lawer o wybodaeth neu heb unrhyw wybodaeth.</p>	<p>15 (1) (a) (b)</p>			
<p>Mae angen adolygiad o'r arferion ym mhob ward er</p>	<p>15 (1) (b) a 19 (1) (b)</p>			

<p>mwyn sicrhau bod y staff yn aros yn wylidwrus, a bod asesiadau risg priodol a chadarn yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn.</p>				
<p>Mae angen cyflwyno cyfleoedd i'r cleifion wneud gwaith am dâl.</p>	<p>15 (1) (a) (b) (c)</p>			
<p>Mae angen adolygu'r lefelau staffio, yn enwedig ar Ward Iddon, er mwyn sicrhau nad yw gweithgareddau'r cleifion yn cael eu canslo oherwydd diffyg staff.</p>	<p>20 (1) (a)</p>			
<p>Mae angen adolygu maint y dognau, a'r arfer o roi grawnfwydydd yn unig i swper, ac o roi cyw iâr ar bob bwydlen er mwyn sicrhau bod gan</p>	<p>15 (9) (b)</p>			

gleifion digon o fwyd ac amrywiaeth.				
Mae angen i unrhyw ganlyniadau o gyfarfodydd pwyllgor arlwyo misol blaenorol gael eu cofnodi i ddangos tystiolaeth o gynnydd yn y meysydd a nodwyd.	15 (1) (c)			
Mae angen goruchwyliaeth glinigol ar yr holl staff (perthnasol) er mwyn sicrhau bod y staff yn gallu cefnogi a hyrwyddo gwelliant mewn arferion a safonau ledled yr ysbyty.	20 (2) (a)			
Yr holl staff i dderbyn hyfforddiant mewn Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed er mwyn sicrhau bod gan y staff wybodaeth a sgiliau	20 (1) (a) a (2) (a)			

cyfredol.				
Mae angen i hyfforddiant yn y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gael ei gyflwyno er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn y maes hwn.	20 (1) (a) a (2) (a)			
Mae angen i bob cynw anffurfiol gael gwybodaeth gynhwysfawr yn y ffeil a thystiolaeth i ddangos y rheswm am y canlyniad.	24 (2) a (5)			
Mae angen adolygu a diweddarau'r cynlluniau gofal er mwyn sicrhau bod y cofnodion hylifau yn adlewyrchu'r hylifau a roddwyd; bod cofnodion yn cael eu cwblhau yn unol â'r canllawiau; bod asesiadau o	15 (1) (a) (b) (c)			

<p>anghenion deietegol ar gael; bod cynlluniau rhyddhau ar waith; a bod anghenion na chawsant eu diwallu yn cael eu cofnodi.</p>				
<p>Argymhelliad</p> <p>Mae angen ystyried estyn y ddarpariaeth o gyrsiau achrededig i'r cleifion, yn enwedig ar gyfer garddwriaeth.</p>				